**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

08 Mai 2025

**Materion sy'n wynebu'r sector addysg uwch**

Annwyl Delyth,

Ar hyn o bryd, rydym fel pwyllgor yn edrych ar y materion sy'n wynebu'r sector addysg uwch yng Nghymru. Er bod y gwaith hwn wedi'i sbarduno gan y cynigion ar gyfer newidiadau ym Mhrifysgol Caerdydd yn benodol, mae'r cwmpas bellach wedi ehangu i gynnwys y materion sy'n wynebu'r sector yn ei gyfanrwydd.

Rydym yn ymwybodol o'ch diddordeb arbennig yn y materion sy'n gysylltiedig â'r cynnig i ddod â'r pynciau a'r rhaglenni mewn ieithoedd modern a chyfieithu i ben.

Bydd yr Athro Wendy Larner, Llywydd ac Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd, yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ddydd Iau 12 Mehefin. Oherwydd y bydd siŵr o fod gennych ddiddordeb yn y sesiwn benodol hon, hoffwn wahodd un aelod o'ch pwyllgor i ddod iddi o dan Reol Sefydlog 17.49.

A fyddech cystal â rhoi gwybod i'r Clerc erbyn 2 Mehefin fan bellaf os oes unrhyw unigolion o blith aelodau eich pwyllgor am fanteisio ar y cynnig hwn, ynghyd ag enwau'r unigolion hynny? Os na fydd unrhyw Aelod yn gallu ymuno â ni ond am godi unrhyw faterion gyda'r Llywydd ac Is-Ganghellor, rhowch wybod i mi.

Yn gywir,

Buffy Williams AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.